Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd

YSGOL GYNRADD
YR EGLWYS YNG NGHYMRU,
Y TRALLWNG

WELSHPOOL CIW PRIMARY
Bringing out the best in each other

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Creu Tîm Menter
# Llais Disgybl



Syniadau Mawr Cymru
Big Ideas Wales

Busnes Cymru | Business Wales

Noddwr Cyswllt
Associate Sponsor
NatWest Cymru

# Nodiadau pwysig i'w cofio

- Mae angen i'r ysgol fod yn gefnogol i Fenter.
- Dylid neilltuo amser i oedolion a phlant ar gyfer cyfarfodydd a chreu cynnyrch.
- Dylid cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd fel bod gwybodaeth yn ffres ym meddyliau’r plant.
- Rhaid i oedolion a phlant fod yn galonogol a brwdfrydig yng nghyswllt pob syniad beth bynnag y bont.





# Sesiwn 1

- Dewiswch 1-2 gynrychiolydd o bob dosbarth.
- Cynhelir y cyfarfod cyntaf gan y staff, gan esbonio y cynhelir y cyfarfodydd yn y dyfodol gan y plant gyda chymorth oedolyn.
- Torrwch yr iâ gyda gemau ‘dod i adnabod ein gilydd’ .
- Beth yw Menter? Sesiwn holi ac ateb.
- Trafod y Criw Mentrus a chyflwyno'r cymeriadau.
- Egluro rolau o fewn y grŵp - Cadeirydd, Is-gadeirydd, Ysgrifennydd, Trysorydd, Trysorydd Cynorthwyol ac Is-bwyllgor.
- Gofynnwch i'r plant feddwl am syniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf. Y plant i ofyn i aelodau eu teulu a ffrindiau yn y dosbarth am awgrymiadau.
- Cynnig rolau i blant blwyddyn 5 a 6. Os oes ganddynt ddiddordeb gallant ysgrifennu paragraff byr i ddweud pam eu bod yn meddwl y dylid eu dewis ar gyfer y rôl a dod ag ef i'r sesiwn nesaf.
- Ysgrifennir cofnodion gan yr ysgrifennydd a'u hanfon at y Pennaeth a'r athrawon dosbarth.






# Rolau

## Cadeirydd

- Cynnal y cyfarfod a thrafod materion sy'n codi
- Gwrando ar bob syniad a sicrhau bod lleisiau pob plentyn yn cael eu clywed
- Goruchwylio ethol grwpiau ar gyfer rolau o fewn tasgau

## Trysorydd

- Casglu'r arian
- Cadw cofnod o gostau ac elw
- Cydgysylltu ag ysgrifennydd yr ysgol

## Ysgrifennydd

- Cymryd cofnodion mewn cyfarfodydd
- Teipio'r cofnodion a'u hanfon ar ebost i'r Pennaeth ac athrawon dosbarth
- Postio ar-lein (gyda chymorth athrawon) ac ysgrifennu llythyrau at gwmnïau



# Sesiwn 2

- Ethol y Pwyllgor - Plant yn dweud pam yr hoffent gael y rôl ac yna cynhelir pleidlais gudd.
- Trafod pwysigrwydd yr is-bwyllgorau a sut mae eu barn, eu syniadau a'u cymorth yn hanfodol i lwyddiant y tîm Menter.
- Cadeirydd i eistedd ochr yn ochr ag oedolyn i drafod syniadau ar gyfer y prosiect cyntaf
- Ysgrifennydd i eistedd ochr yn ochr ag oedolyn i gynorthwyo gyda'r cofnodion.
- Plant yn dod â'u syniadau ac yn trafod - Cofiwch fod pob syniad yn syniadau gwych! Mae oedolion yn cynnig ychydig o awgrymiadau i roi’r plant ar y llwybr cywir.
- Yn bwysig, cytuno ar weithgareddau hylaw, cost-effeithiol y gellir eu harwain gan y plentyn. Ceisiwch ddefnyddio adnoddau ysgol neu roddion ar gyfer y gweithgaredd cyntaf, bydd hyn yn creu pot o arian ar gyfer adnoddau yn y dyfodol.
- Pleidleisiwch ar y tri phrif syniad. Mae'r plant yn mynd â'r syniadau hyn yn ôl i’r dosbarth i'w trafod gyda chyd-ddisgyblion. Defnyddiwch siart cyfrif ar gyfer diddordeb. Mae plant hŷn yn cynorthwyo plant ifanc iawn gyda hyn.



# Sesiwn 3

- Cadeirydd yn agor y cyfarfod ac yn casglu adborth ar y syniadau cychwynnol gan bob dosbarth.
- Dewis y syniad mwyaf poblogaidd ar draws yr ysgol, ac mae'r broses gynllunio yn dechrau.
- Mae sampl o fap meddwl cynllunio manwl ar gyfer cynhyrchu cerdyn San Ffolant neu unrhyw 'gerdyn' ar y sleid nesaf.
- Gellid hefyd addasu'r map meddwl hwn ar gyfer cynnyrch eraill.










## Cynllunio manwl ar gyfer cerdyn Sant Ffolant

- Adnoddau
  - Gofyn am gyfraniadau
  - Beth sydd angen i ni ei brynu?
  - Gwneud rhestr
  - Casglu eitemau ynghyd
- Faint sydd eu hangen arnom?
  - Siart cyfrif er diddordeb
- Pryd fyddwn yn eu gwneud?
  - Ebostio’r Pennaeth gyda syniadau a gofyn am glwb ar ôl ysgol
- Sut fyddwn yn hysbysebu’r cardiau?
  - Gwasanaeth ysgol
  - Cylchlythyr yr ysgol
  - Posteri o amgylch yr ysgol
  - Gwefan yr ysgol

- Sut byddwn yn gwerthu’r cardiau?
  - Am ba bris fyddant yn gwerthu?
    - Beth rydym yn gobeithio ei godi?
      - Ar gyfer beth ydym eisiau codi arian?
  - Ble byddwn yn eu gwerthu?
    - Ble gallwn gyflawni’r gwerthiant mwyaf posib?



# Sesiwn 4 – Gwerthuso

- Mae’r tîm menter yn dechrau drwy fyfyrio ar y prosiect cyfan, a rhannu llwyddiannau a’u rhan nhw ynddo, gan drafod a oedd unrhyw beth y byddent yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf.
- Yna gyda chefnogaeth staff, mae aelodau'r tîm yn trafod y prosiect gyda'u cyd-ddisgyblion gan ddefnyddio:
  - seren a dymuniad,
  - neu a oedd unrhyw beth y byddent yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf?
- Rhennir llwyddiant gyda’r ysgol gyfan.



